**Jane Hutt AC**
**Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip**
**Deputy Minister and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

John Griffiths AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
SeneddCommunities@cynulliad.cymru

4 Mehefin 2019

Annwyl John

Fel y bydd y Pwyllgor yn gwybod, rydym yn cael ein hwynebu yn aml â chyfyngiadau ynghylch cydraddoldebau oherwydd ein dibyniaeth ar ddata arolygon a'r ffaith bod gennym ddiddordeb yn aml mewn grwpiau bach o'r boblogaeth. Rwyf yn ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi am wahanol agweddau ar waith sy'n cael ei wneud gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol a'n hystadegwyr ein hunain a fydd yn ein helpu i ddeall canlyniadau yn ôl gwahanol nodweddion cydraddoldeb. Mae hyn yn dilyn cyfarfod cadarnhaol iawn a gefais yn ddiweddar ag Iain Bell, y Dirprwy Ystadegydd Gwladol dros y Boblogaeth a Pholisi Cyhoeddus.

Paratoadau ar gyfer Cyfrifiad 2021

Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU Bapur Gwyn[1] yn cynnwys y cynigion ar gyfer Cyfrifiad Poblogaeth 2021 yng Nghymru a Lloegr ac fe gyhoeddodd y Prif Weinidog ddatganiad ysgrifenedig. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion sydd i'w croesawu am y tro cyntaf ynghylch casglu data ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd yn ogystal â chynnwys Roma fel categori o fewn y cwestiwn ar Ethnigrwydd.

Ar 1 Mai cyflwynodd Llywodraeth y DU Fil y Cyfrifiad (Manylion Ffurflenni a Dileu Cosbau). Prif ddiben y Bil yw diwygio Deddf y Cyfrifiad 1920 i ddileu'r gosb am beidio ag ymateb i gwestiynau newydd yn y Cyfrifiad am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd, ac i ychwanegu cyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd at yr Atodlen i'r Ddeddf honno. Bydd hyn yn golygu y gall Cyfrifiad 2021 gynnwys cwestiynau am gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth o ran rhywedd y gellir eu hateb yn wirfoddol.

Caf ar ddeall fod y Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r gwaith craffu ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

[1] https://www.gov.uk/government/publications/the-2021-census-of-population-and-housing-in-england-and-wales

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn ehangach, yn 2020 bydd y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd yn gosod Rheoliadau'r Cyfrifiad i Gymru ac mae'n bwysig inni graffu ar gynlluniau ymhell cyn hynny er mwyn sicrhau bod ystyriaeth briodol yn cael ei rhoi mewn da bryd i faterion yng Nghymru.
Felly, er y bydd y gwaith craffu ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn gyfyngedig i'r cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â'r bil penodol hwn, hoffwn annog y Pwyllgor hefyd i ddarllen y Papur Gwyn ac i ystyried gwahodd ONS i roi tystiolaeth i'r Pwyllgor am gynnydd tuag at y Cyfrifiad nesaf. Byddai hyn yn ffordd ddefnyddiol iddynt ategu eu tystiolaeth i'r Pwyllgor Diwylliant, y Gymraeg a Chyfathrebu y llynedd.

ONS a'r Ganolfan Cydraddoldebau a Chynhwysiant

Yn ein cyfarfod, disgrifiodd y Dirprwy Ystadegydd Gwladol sut y mae ONS wedi sefydlu Canolfan Cydraddoldebau a Chynhwysiant newydd yn ddiweddar. Nod y Ganolfan yw gwella'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer deall cydraddoldeb a thegwch yn y DU heddiw, gan hwyluso ffyrdd newydd o edrych ar gwestiynau polisi allweddol. Y bwriad yw i'r tîm bach yn ONS gasglu arbenigedd perthnasol ar draws y llywodraeth ganolog a llywodraeth leol, y byd academaidd, busnes a'r trydydd sector.

Mae potensial i'r Ganolfan weithio gyda ni i'n helpu i feithrin ffyrdd o ategu ein dealltwriaeth o gydraddoldebau yng Nghymru a chyrff cyhoeddus yn eu gwaith ar asesiadau llesiant.

Er enghraifft, dros yr haf bydd y Ganolfan yn cyhoeddi erthygl yn dwyn ynghyd gwahanol ffynonellau o ddata ar grefydd i ddeall yn well sut y mae crefydd yn ymwneud ag ystod o ganlyniadau allweddol ym maes cydraddoldebau ac i nodi lle mae bylchau yn y data o hyd.

Mae Prif Swyddog Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru ar Grŵp Cynghori Strategol y Ganolfan. Mae i'w croesawu wrth gwrs fod y Ganolfan wedi'i sefydlu ym mhencadlys ONS yng Nghasnewydd ac mae ei lleoliad yn Ne Cymru'n cynnig cyfle ardderchog i weithio mewn partneriaeth.

Mae ONS yn bwrw ymlaen â gwaith mewn nifer o feysydd eraill a fydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor. Er enghraifft, buont yn edrych ar ansawdd cyflogaeth i bobl anabl, ac mae ganddynt gysylltiadau da â gwaith Llywodraeth y DU ar ddeall canlyniadau i geiswyr lloches a ffoaduriaid.

Y bwlch cyflog ym maes ethnigrwydd ac anabledd

Yn ein hymgynghoriad diweddar ar gerrig milltir cenedlaethol bu inni ymrwymo i ymchwilio i ymarferoldeb ehangu'r dangosydd llesiant cenedlaethol ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau i nodi gwahaniaethau yn ôl ethnigrwydd ac anabledd. Dywedodd y Dirprwy Ystadegydd Gwladol fod ONS wedi bod yn ymchwilio i hyn a'i bod yn gobeithio ei gyhoeddi am y tro cyntaf dros yr haf.

Cysylltu data

Fel y dywedais uchod mae problemau yn aml wrth ddadansoddi data yn ôl nodweddion gwarchodedig gan ein bod yn dibynnu ar arolygon lle na ofynnir cwestiynau o bosibl neu lle y gallai maint y sampl golygu na ellir cynhyrchu data cadarn, yn enwedig ar gyfer categorïau manwl neu wrth geisio dadansoddi croestoriadau o grwpiau poblogaeth.

Trwy gysylltu setiau data â'i gilydd, ac yn arbennig defnyddio data gweinyddol a ddelir eisoes gan y llywodraeth, mae modd cynnal ymchwil mewn ffordd ddiogel a moesegol a fydd yn caniatáu inni ddeall llawer mwy am ganlyniadau grwpiau gwahanol. Wrth ddefnyddio data gweinyddol, er bod problemau o ran ansawdd y data yn aml, mae dadansoddwyr yn cael eu cyfyngu'n llawer llai gan niferoedd bach.

Mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud yn ONS a Llywodraeth Cymru ar yr agenda hon. Mae ONS yn defnyddio pwerau o dan Ddeddf yr Economi Ddigidol i gasglu data oddi wrth y llywodraeth a fydd yn eu helpu i wella ystadegau swyddogol. Fel prosiect enghreifftiol fe wnaethant roi cymorth i Archwiliad Gwahaniaethau Hil Llywodraeth y DU trwy gysylltu gwahanol setiau data a oedd yn eu helpu i ddeall canlyniadau ar gyfer gwahanol grwpiau ethnig.

Mae Llywodraeth Cymru ac ONS hefyd yn Rhan o Bartneriaeth Ymchwil Data Gweinyddol y DU y bwriedir iddi fanteisio i'r eithaf ar y defnydd o ddata gweinyddol ar gyfer ymchwil. Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyllid oddi wrth ESRC ar gyfer y gwaith hwn ac rydym yn datblygu rhaglen ymchwil i gefnogi ein blaenoriaethau ar gyfer Ffyniant i Bawb - a bydd canolbwynt allweddol ar ddeall anghydraddoldeb canlyniadau.

Llesiant Cymru

Ym mis Medi y llynedd, cyhoeddodd Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru'r ail adroddiad statudol blynyddol ar lesiant, sef *Llesiant Cymru 2018*. Mae'r adroddiad hwn yn darparu dadansoddiad o gyflwr y genedl mewn perthynas â'n cynnydd tuag at “Cymru fwy cyfartal”. Mae hyn yn dwyn ynghyd ystod eang o ddata ar lesiant - gan gynnwys ond nid yn unig y dangosyddion llesiant cenedlaethol - ac yn eu hystyried yn ôl y gwahanol nodweddion gwarchodedig. Er enghraifft, y llynedd ymdriniodd yr adroddiad â materion megis troseddau casineb a data na chynhwysir mohonynt yn y set o ddangosyddion cenedlaethol ond sy'n taflu goleuni ar ein dealltwriaeth o lesiant.

Cyn belled â phosibl, trefnir bod data ar y dangosyddion cenedlaethol ar gael ar gyfer gwahanol grwpiau poblogaeth. Mae bron pob un o'r dangosyddion cenedlaethol ar gael yn rhwydd yn ôl rhywedd (lle'r oedd yn briodol neu'n ymarferol).

Trwy weithio mewn partneriaeth ag ONS rydym yn gobeithio y bydd modd inni nodi cyfleoedd i daflu goleuni ar yr adroddiad llesiant yn y dyfodol. Mae'r Prif Ystadegydd hefyd wedi cynnal deialog â Chwarae Teg fel rhan o'i Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol i ystyried sut y gellir gwella ein cynnyrch ystadegol i roi cipolwg ar y mater o safbwynt rhywedd.

Mae ein hystadegwyr hefyd edrych ar ymarferoldeb darparu catalog o setiau data sydd ar gael yn ôl gwahanol nodweddion gwarchodedig, i gydategu Llesiant Cymru ac adroddiadau eraill yn y dyfodol.

Arolwg Cenedlaethol Cymru

Er gwaethaf y cyfyngiadau a ddisgrifir uchod, mae arolygon yn parhau i ddarparu gwybodaeth werthfawr na ellir ei chael o ffynonellau eraill; ac ar gyfer rhai nodweddion cydraddoldebau (e.e. oedran, anabledd a rhyw), mae'r grŵp diddordeb yn ddigon cyffredin fel y gellir cynhyrchu canlyniadau cadarn. Gellir cyfuno samplau hefyd ar draws blynyddoedd i gynyddu manwl gywirdeb canlyniadau ymhellach.

Mae Arolwg Cenedlaethol Cymru[2] yn ffynhonnell allweddol ar gyfer gwybodaeth am gydraddoldebau yng Nghymru. Fe'i defnyddir i adrodd ar 15 o'r 46 o ddangosyddion cenedlaethol ac yn ymdrin ag ystod eang o bynciau, fel bod modd ymchwilio i nodweddion cydraddoldebau ar gyfer ystod gyfan o faterion. Mae allbynnau perthnasol diweddar yn cynnwys bwletinau ar wasanaethau ysbytai a meddygon teulu ac ar fynediad at wasanaethau.

---

[2] https://gov.wales/national-survey-wales

Gobeithio y bydd yr ateb hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor. Rwyf wedi gofyn am ddiweddiad oddi wrth y Dirprwy Ystadegydd Gwladol yn nes ymlaen eleni ar wahanol agweddau ar y gwaith hwn a byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor.

Yn gywir

**Jane Hutt AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip
Deputy Minister and Chief Whip